**CYNGOR SIR**

Cofnodion cyfarfod o'r Cyngor Sir a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun on Dydd Mawrth, 10 Gorffennaf 2012 am 10.00 am.

**YN BRESENNOL**

Y Cynghorwy Ian Armstrong, Raymond Bartley, Brian Blakeley, Joan Butterfield, Jeanette Chamberlain-Jones, Ann Davies, James Davies, Meirick Davies, Richard Davies, Peter Arnold Evans, Hugh Evans, Bobby Feeley, Carys Guy-Davies, Huw Hilditch-Roberts, Martyn Holland, Colin Hughes, Rhys Hughes, Hugh Irving, Alice Jones, Huw Jones, Pat Jones, Gwyneth Kensler, Geraint Lloyd-Williams, Margaret McCarroll, Jason McLellan, Barry Mellor, Bob Murray, Peter Owen, Merfyn Parry, Arwel Roberts, Gareth Sandilands, David Simmons, Barbara Smith, David Smith, Julian Thompson-Hill, Joe Welch, Cefyn Williams, Cheryl Williams, Eryl Williams a/ac Huw Williams

**HEFD YN BRESENNOL**

Prif Weithredwr (MM), Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd (GW), Pennaeth Adnoddau Dynol Strategol (LA), Pennaeth Cynllunio, Adfywio a Gwasanaethau Rheoleiddio (GB), Pennaeth Gwasanaethau Oedolion a Busnesau (PG), Rheolwr Polisi Cynllunio (AL), Gwasanaethau Democratig (SP)

Ymgynghorydd Recriwtio (IJ)

**1 YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr William Cowie, Stuart Davies, Peter Duffy, Win Mullen-James, Dewi Owens, Allan Pennington a/ac Bill Tasker

**YSGOL UWCHRADD Y RHYL – CLUDWYR Y FFLAM OLYMPAIDD**

Croesawodd y Cadeirydd ddisgyblion o Ysgol Uwchradd y Rhyl a oedd wedi eu dewis yn Gludwyr y Fflam Olympaidd yn rhan o raglen Dilynwyr Fflam Taith Gyfnewid Gemau Olympaidd Llundain 2012

Fe anerchwyd y Cyngor gan y disgyblion a adroddodd fod yr ysgol wedi ei dewis oherwydd iddi ddefnyddio Gemau Olympaidd a Pharalympaidd Llundain 2012 i godi ymwybyddiaeth o'r gwerthoedd Olympaidd. Fe ganfu noddwyr y rhaglen Cludwyr Fflam fod llwyddiannau chwaraeon Ysgol Uwchradd y Rhyl a nifer y myfyrwyr a oedd wedi cyflawni llwyddiannau unigol mewn chwaraeon - ynghyd â llwyddiant ag hyfforddi a datblygu, yn eu gwneud yn gyfranogwyr haeddiannol.

Rhoddodd y Cadeirydd a'r cynghorwyr, yn cynnwys yr aelod a oedd yn cynrychioli De Ddwyrain y Rhyl, y Cynghorydd Blakeley, deyrnged i'r Prifathro, y staff a'r disgyblion am y gwelliannau sylweddol a gyflawnwyd gan yr ysgol.

**Cyhoeddiadau'r Cadeirydd**

Tynnwyd sylw Aelodau gan y Cadeirydd at ddigwyddiad ‘Cyflenwi Blaenoriaethau Aelodau’ ar Orffennaf 31, 2012 a fyddai’n helpu i lunio blaenoriaethau’r Cyngor yn y dyfodol; ac at lwyddiant Côr Ieuenctid Sir Ddinbych yn cael eu dyfarnu â ‘Gwobr Côr Ieuenctid Ysgol Roc’ yn yr Ŵyl Gerdd Genedlaethol ar gyfer Ieuenctid yn Neuadd Symffoni Birmingham ddoe.

Fe arweiniodd y Cynghorydd Eryl Williams yr aelodau mewn teyrnged dawel i Mr Phil Rafferty, Pennaeth Gwasanaethau Rheoleiddiol Cyngor Conwy a oedd hefyd wedi darparu cyngor a chefnogaeth i Bwyllgor Trwyddedu Sir Ddinbych.

## 2 DATGANIADAU O FUDDIANT

Mynegodd y Cynghorydd Alice Jones fuddiant anniweidiol, personol yn eitem agenda 6 – Diweddariad ar Gynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych. Dywedodd y byddai’n siarad ar faterion y Cynllun Datblygu Lleol yn ei rôl fel aelod ward Bodelwyddan.

## 3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Nid oedd yna unrhyw faterion brys.

## 4 COFNODION

***PENDERFYNWYD*** *derbyn cofnodion Cyfarfod Blynyddol y Cyngor ar Fai 15, 2012 a chyfarfod y Cyngor ar Fai 22, 2012 yn gofnodion cywir*.

**Gwahardd y wasg a'r cyhoedd**

**Penderfynwyd,** dan Adran 100A Deddf Llywodraeth Leol 1972, gwahardd y wasg a’r cyhoedd o’r cyfarfod ar gyfer yr eitem fusnes ganlynol gan y byddai’n debygol i wybodaeth eithriedig gael ei datgelu fel y’i nodir ym mharagraffau 12 a 13 Rhan 4 o Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972.

## 5 PENODI CYFARWYDDWR CORFFORAETHOL: UCHELGAIS ECONOMAIDD A CHYMUNEDOL

Adroddodd y Pennaeth AD Strategol ac ymgynghorydd recriwtio’r Cyngor ar y broses recriwtio yr ymgymerwyd â hi lle’r oedd 31 o geisiadau a 6 ymgeisydd wedi mynd drwy broses o asesu. Hysbyswyd Aelodau fod Panel Penodiadau Arbennig o gynghorwyr wedi barnu dau o’r ymgeiswyr i fod â photensial o fod yn addas i’w penodi.

Rhoddodd y ddau ymgeisydd gyflwyniadau i'r Cyngor ac ymateb i gwestiynau penodedig.

Amlinellodd yr ymgynghorydd recriwtio ganlyniadau'r profion a gynhaliwyd yn rhan o'r broses o asesu.

***PENDERFYNWYD – penodi Rebecca Maxwell i swydd Cyfarwyddwr Corfforaethol: Uchelgais Economaidd a Chymunedol.***

**RHAN I – FE AILDDECHREUWYD Y CYFARFOD MEWN SESIWN AGORED**

**6 DIWEDDARIAD AR GYNLLUN DATBLYGU LLEOL SIR DDINBYCH**

Cyflwynodd y Pennaeth Cynllunio, Adfywio a Gwasanaethau Rheoleiddiol adroddiad a oedd yn rhoi gwybodaeth a ddiweddarwyd ar y Cynllun Datblygu Lleol ac a oedd yn ceisio awdurdodiad i Arweinwyr Grŵp oruchwylio a monitro gwaith a wneir mewn ymateb i ganfyddiadau'r Arolygwr o'r Arolygiaeth Gynllunio.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Eryl Williams at broses hir y CDLl, rhoddodd gymeradwyaeth i'r cynghorwyr a oedd wedi cyfrannu tuag at ddatblygiad y cynllun a gofynnodd am eglurhad ar safle'r Arolygwr a'r broses i ddod.

Cyfeiriodd y Pennaeth Cynllunio, Adfywio a Gwasanaethau Rheoleiddiol at nodiadau'r Arolygwr ar yr angen am dai a'u cyflenwad a oedd yn atodol fel atodiadau i'r adroddiad. Dywedodd fod yr Arolygwr wedi derbyn amcangyfrif y Cyngor fod ar Sir Ddinbych angen adeiladu 7,500 o gartrefi newydd yn ystod oes y CDLl ond credai o hyd y byddai angen safleoedd ychwanegol i gyflenwi'r cartrefi hynny. Felly, gofynnid i'r Cyngor nodi safleoedd ychwanegol ar gyfer datblygu tai. Cadarnhaodd y byddid yn ymgynghori â chynghorwyr lleol ac â Grwpiau Aelodau Ardal ar gynigion o fewn eu hardaloedd.

Adroddodd y Cynghorydd Joan Butterfield fod rhai cynghorwyr wedi derbyn llythyr gan Gyngor Tref Bodelwyddan a oedd yn awgrymu fod y prosesau a ddilynwyd yn anghywir.

Roedd y Cynghorydd Alice Jones wedi datgan buddiant personol yn yr eitem yma'n flaenorol. Dywedodd y Cynghorydd Jones nad oedd wedi bod yn ymglymedig â'r llythyr y cyfeiriwyd ato ac nad oedd yn awgrymu fod prosesau amhriodol wedi eu dilyn. Roedd, fodd bynnag, yn bryderus fod y CDLl fel yr oedd yn anhydrin, roedd â gormod o'r dyraniad angen tai mewn un safle (Bodelwyddan) a dylid tynnu'r cynllun presennol yn ôl a'i ail-ddrafftio.

Amlinellodd y Cynghorydd Jones anghymeradwyaeth ei hetholwyr i'r dyraniadau tai mawr arfaethedig ym Modelwyddan.

Cynigiodd y Cynghorydd Jones ddiwygiad i argymhelliad 2 yr adroddiad, a eiliwyd gan y Cynghorydd Rhys Hughes, a fyddai'n awdurdodi Grŵp Llywio Gweithrediad y CDLl a gyfansoddwyd yn flaenorol, i oruchwylio a monitro gwaith y CDLl o ran canfyddiadau'r Arolygwr, yn hytrach na'r Arweinwyr Grŵp.

O bleidleisio fe gollwyd y diwygiad.

***PENDERFYNWYD** – fod y Cyngor yn:*

*(i) Nodi cynnwys yr adroddiad;*
*(ii) Awdurdodi'r Arweinwyr Grŵp i oruchwylio a monitro'r gwaith a wneir mewn ymateb i ganfyddiadau'r Arolygwyr;*
*(iii) Cytuno fod canlyniadau ymgynghoriad ar unrhyw safleoedd ychwanegol ar gyfer datblygu tai'n cael eu hadrodd yn ôl i'r Cyngor llawn ym mis Tachwedd ac i'r Cyngor ystyried a ddylid cyflwyno safleoedd ychwanegol i'r Arolygwyr sy'n cynnal Archwiliad y CDLl.*

## 7 ALLDRO REFENIW TERFYNOL 2011/12

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill (Aelod Arweiniol dros Gyllid) adroddiad gan y Pennaeth Cyllid ac Asedau (a gylchredwyd yn flaenorol) a oedd yn ceisio cymeradwyaeth y Cyngor i'r safle alldro refeniw terfynol ar gyfer 2011 / 2012 a thriniaeth cronfeydd wrth gefn a gweddillion fel y'u nodir yn atodiadau 1 a 2 yr adroddiad.

Adroddodd y Cynghorydd Thompson-Hill fod y sefyllfa alldro'n dda'n gyffredinol ar gyfer y flwyddyn ariannol ddiwethaf gan fod gwasanaethau'n gyffredinol wedi gwario llai na'u cyllidebau a ddyrannwyd ac roedd incwm o'r Dreth Gyngor wedi cynyddu. Dywedodd fod cryn waith wedi ei wneud â'r ysgolion hynny a oedd yn profi anawsterau ariannol.

Cynigiodd y dylid caniatáu i wasanaethau gario eu tanwariant ymlaen yn llawn i gyflenwi strategaeth cyllideb 2012 / 2013 ac y byddai'n mynd ag adroddiad i'r Cabinet ar y ffordd yr oedden nhw'n argymell gwario'r arian hwnnw. Cynigiodd y Cynghorydd Thompson-Hill hefyd y dylid defnyddio £600K o'r cronfeydd nad oedden nhw wedi eu dyrannu i gyfrannu tuag at raglen cyfalaf Moderneiddio Addysg/Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain.

Yn y drafodaeth ganlynol fe ystyriodd yr Aelodau'r pwyntiau canlynol:

- Cronfeydd ariannol Statws Sengl wrth gefn a graddfeydd amser ar gyfer penderfyniad
- Gweddillion ysgolion a oedd wedi codi o £223K. Dywedodd y Prif Weithredwr fod gwahanol ysgolion â gwahanol weddillion ac na ellid yn gyfreithlon gymryd gweddill dros ben un ysgol i gymorthdalu diffyg gweddill ysgol arall.
- Ansicrwydd presennol ynglŷn â lefelau ariannu cyfatebol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer gwaith cyfalaf i ysgolion.
- Amlygodd y Cynghorydd Brian Blakeley ei bryderon dwfn ynglŷn â lefelau cyllid ar gyfer darpariaeth canolfannau gofal dydd y Cyngor a oedd yn darparu gwasanaethau ardderchog i'r oedrannus.
- Unrhyw acronymau mewn adroddiadau yn y dyfodol i'w hesbonio'n llawn.

***PENDERFYNWYD** – bod y Cyngor yn:*

(i) *Cymeradwyo safle alldro refeniw terfynol ar gyfer 2011 / 2012;*
(ii) *Cymeradwyo'r driniaeth o gronfeydd wrth gefn a gweddillion fel y'i nodir yn yr adroddiad ac yn atodiad 2 i'r adroddiad.*

## 8 PENODI AELOD LLEYG I'R PWYLLGOR LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd adroddiad (a gylchredwyd yn flaenorol) ynglŷn â phenodi aelod lleyg i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol.

Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd fod angen o leiaf un aelod lleyg ar gyfer y Pwyllgor gan mai'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol oedd Pwyllgor Archwilio'r Cyngor i ddibenion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011. Amlinellodd y broses recriwtio a chyfweld a ddefnyddiwyd.

Adroddodd y Cynghorydd Martyn Holland ar y cyfweliadau yr oedd o a'r Cynghorydd David Simmons wedi cyfranogi ynddyn nhw'n rhan o'r panel cyfweld o gynghorwyr a swyddogion a oedd wedi arwain at roi argymhelliad i'r Cyngor heddiw.

***PENDERFYNWYD** bod y Cyngor yn penodi Mr Paul Whitham yn aelod lleyg y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol, yn ôl cymeradwyaeth y panel cyfweld, am dymor i ddod i ben ar ddyddiad yr etholiad llywodraeth leol nesaf yn 2017.*

## 9 COMISIWN FFINIAU LLYWODRAETH LEOL CYMRU - PAPUR YMGYNGHORI AR BOLISI MAINT CYNGHORAU

Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd adroddiad (a gylchredwyd yn flaenorol) a oedd yn ceisio cymeradwyaeth y Cyngor i gyflwyno ymateb i ymgynghoriad drafft ar nifer yr aelodau etholedig ym mhob awdurdod unedol yng Nghymru.

Adroddodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd fod y papur ymgynghorol wedi ei gylchredeg i arweinwyr grŵp er mwyn cynnwys barn eu haelodau yn ymateb y Cyngor.

Mewn ymateb i'r Cynghorydd Colin Hughes cadarnhaodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd fod adolygiad ffiniau blaenorol wedi ei sgrapio a'i ddisodli gan yr adolygiad hwn. Ychwanegodd fod yr adolygiad yn gosod lefelau isaf a lefelau uchaf ar gyfer maint y cyngor (30 a 75 o gynghorwyr yn ôl eu trefn) ac mai'r ffigwr a roddwyd i Sir Ddinbych oedd 43 o gynghorwyr, ond roedd y Comisiwn wedi nodi y gellid altro eu ffigurau o 3 chynghorydd un ffordd neu'r llall. Dyma fyddai'r man cychwyn ar gyfer yr adolygiad a byddai'r Comisiwn yn ymweld â phob awdurdod wrth i'r ymgynghoriad fynd yn ei flaen.

Gan fod ffigurau’r Comisiwn yn seiliedig ar gymhareb o un cynghorydd i bob 1,750 o etholwyr gofynnodd y Cynghorydd Martyn Holland a oedd effaith y 7,500 o gartrefi newydd a gynigiwyd dan ganfyddiadau Cynllun Datblygu Lleol yr Arolygiaeth Gynllunio wedi eu hystyried gan y Comisiwn.

***PENDERFYNWYD*** *– yn amodol ar gynnwys cyfeiriadau i effaith y datblygiadau tai newydd a gynigiwyd dan y Cynllun Datblygu Lleol drafft i’w hystyried gan y Comisiwn, bod y Cyngor yn cymeradwyo cyflwyniad yr ymateb i’r ymgynghoriad a ddangosir yn atodiad 4 i’r adroddiad.*

## 10 ADRODDIAD CYNGOR BLYNYDDOL: GWASANAETHAU CYMDEITHASOL 2011/2012

Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion a Busnes adroddiad (a gylchredwyd yn flaenorol) gan Gyfarwyddwr Corfforaethol: Moderneiddio a Lles a oedd yn ceisio cefnogaeth y Cyngor i asesiad a blaenoriaethau gwella’r Cyfarwyddwr ar gyfer 2012 / 2013.

Crynhodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion a Busnes yr asesiad fod Gwasanaethau Sir Ddinbych, yn gyffredinol, wedi parhau i berfformio’n dda ac amlinellodd y prif sialensiau a oedd yn wynebu’r gwasanaeth ac roedd y rheiny’n cynnwys newidiadau deddfwriaethol yng Nghymru a oedd angen sylw.

Cefnogai’r Cynghorydd Bobby Feeley (Aelod Arweiniol dros Ofal Cymdeithasol a Gwasanaethau Plant) sylwadau’r Pennaeth Gwasanaethau Oedolion a Busnes a’r adroddiad a mynegodd ei gobeithion y byddai bylchau mewn darpariaeth yn cael eu cau wrth i Wasanaethau Cymdeithasol a’r GIG weithio’n effeithiol â’i gilydd.

Yn ystod y drafodaeth cyfeiriodd Aelodau at:

- Y gwasanaethau buddiol a gyflenwir drwy’r cynlluniau tai gofal ychwanegol
- Gwerthfawrogiad o’r gwasanaethau a ddarperir drwy ganolfannau gofal dydd a mynegwyd pryderon ynglŷn â dyfodol ansicr rhai canolfannau yn y Rhyl a Dinbych gan y Cynghorwyr Blakeley, Bartley a Colin Hughes
- Y problemau a brofir gan rai pobl sydd angen help i wybod pa wasanaethau iechyd neu ofal cymdeithasol sydd ar gael a sut i’w cyrchu

Fe anogwyd Aelodau gan y Cynghorydd Feely i fynd i ddigwyddiad gosod Blaenoriaethau Corfforaethol ar Orffennaf 31, 2012 i sicrhau fod blaenoriaethau’r dyfodol yn adlewyrchu blaenoriaethau cynghorwyr o ran gwasanaethau cymdeithasol.

***PENDERFYNWYD*** *– bod y Cyngor yn cefnogi asesiad a blaenoriaethau gwella’r Cyfarwyddwr ar gyfer 2012 / 2013 fel y’u nodir yn yr adroddiad.*

## 11 RHAGLEN WAITH Y CYNGOR AT Y DYFODOL

Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd Flaenraglen Waith y Cyngor (a gylchredwyd yn flaenorol) ac adroddodd yr eitemau canlynol i'w cynnwys ym Medi 2012:

- Cyfamod Cymunedol â'r Lluoedd Arfog
- Prosiect Gwella Tai Gorllewin y Rhyl
- Pwyllgor Safonau – Cyfnod Swydd Aelodau Annibynnol

***PENDERFYNWYD*** *nodi'r flaenraglen waith.*